Papur adfyfyriol

Beth yw Ansawdd?

Mae darpariaeth o ansawdd mewn addysg gynnar a gofal plant yn cael ei chynnal trwy weithlu sy'n hyderus yn y canlynol; Ymgysylltu gyda theuluoedd, mamau a thadau, cydweithio, sicrhau disgwyliadau uchel i blant gyflawni'r canlyniadau gorau a hefyd deall pwysigrwydd addysgeg a datblygiad plant. (Foundation Years, dim dyddiad) Mae Rudoe (2020) yn cytuno bod darpariaeth o ansawdd yn edrych fel ymarferwyr sydd yn wybodus, medrus, profiadol ac sydd yn deall eu plant allweddol yn llwyr. Mae'n bwysig bod yr ymarferwyr yn gwybod anghenion eu plant, fel i gyrraedd eu hanghenion a hefyd fel i symud ymlaen yn eu dysgu. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gwneud hwn yn ffordd sydd yn hwyl, ystyrlon, mae'r plant yn mwynhau a hefyd sy'n cael ei rhannu gyda rheini. Mae'n hanfodol bod pawb yn gwybod beth maent yn wneud a pham maent yn wneud. Mae darpariaeth ansawdd ar y cyfan yn ymwneud a pha mor mae'r plant yn ymgysylltu yn eu dysgu.

Mae Bland (dim dyddiad) yn cyfleu bod amgylchedd o ansawdd uchel yn ymgorffori nifer o elfennau ochr yn ochr â'r gofodau ac adnoddau corfforol. Mae'n hefyd yn cynnwys staff sydd gyda gwybodaeth am ddatblygiad plant ac sydd yn gallu ymgysylltu yn sensitif i anghenion plant, adnoddau chwarae sydd yn benagored, cyfleoedd ar gyfer plant i roi cynnig arni ac wynebu heriau a hefyd pobl allweddol sy'n datblygu ymlyniadau sicr. Mae Hallet (2013) yn dweud bod rôl arwain arfer yn hanfodol i godi darpariaeth ansawdd a hefyd arfer y blynyddoedd cynnar. Mae profiad o weithio yn lleoliadau blynyddoedd cynnar, angerdd emosiynol a brwdfrydedd, dysgu proffesiynol parhaus mewn addysg uwch ac ymarfer myfyriol trwy weithio gyda phlant ifanc wedi helpu ymarferwyr galluogi i arwain newid mewn llunio ac addysgeg a gwella arfer proffesiynol trwy arddull arwain gydweithredol. Mae Hallet (2013) hefyd yn cyfleu bod gweithlu sydd gydag ymarferwyr sy'n gymwys yn gwella darpariaeth ansawdd. Fodd bynnag mae Cottle a Alexander (2012) yn cyfleu bod cael cymaint o bobl yn cymryd rhan yn ddarpariaeth ansawdd yn dod gyda heriau. Mae Cottle a Alexander (2012) hefyd yn pwysleisio ar y ffaith bod y llywodraeth yn cael dylanwad ar fel mae ymarferwyr yn deall ansawdd.

Yn ôl Reed a Canning (2012) mae ansawdd yn galed i'w ddiffinio. Fodd bynnag trwy ddadansoddi newid ac ansawdd efallai bod ymarferwyr yn agosach i ddarganfod

beth yw prif gydrannau o arfer ansawdd yn y blynyddoedd cynnar. Yn ôl Hoare (dim dyddiad) mae diffinio ansawdd yn seiliedig ar gasgliadau o'r Researching Effective Pedagogy in the Early Years (REPEY) mae gan oedolion berthynas gynnes, ymatebol â phlant, mae gan y lleoliad nodau a chynllunio addysgol clir, cefnogir rhieni i gymryd rhan mewn plant dysgu, mae gan staff gymwysterau blynyddoedd cynnar cydnabyddedig, mae gan y lleoliad nodau a chynllunio addysgol clir a rhyngweithio o ansawdd uchel gan gynnwys rhannu parhaus meddwl.

Effaith Ansawdd

Yn ôl Foundation Years (dim dyddiad) mae plant sydd yn cael darpariaeth o safon uchel o ansawdd yn sefyllfa dda i gyflawni canlyniadau uwch yn yr ysgol a hefyd yn datblygu galluoedd gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol gwell. Mae'r rhain i gyd yn angenrheidiol ar gyfer dysgu trwy fywyd i gyd. Fodd bynnag nid yw darpariaeth o ansawdd gwael yn cefnogi datblygiad a dysgu plant yn y tymor hir.

Mae Reed a Canning (2012) yn dweud bod arfer myfyriol yn ffordd o wella ansawdd. Mae myfyrio yn creu gweithle sydd yn drefnus a cynhyrchiol. Wrth wneud hwn mae'n helpu ymarferwyr gyda sgil emosiynol a gwybyddol mae hyn arwain at ymarferwyr dysgu a meddwl o brofiadau a hefyd gwella arfer. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn dysgu a meddwl myfyriol, mae hyn yn ffordd dda o lywio penderfyniadau a chamau gweithredu yn ymarferol, a thrwy oblygiad gwella ansawdd. Mae TeachKloud (2019) yn cytuno bod arfer myfyriol yn y blynyddoedd cynnar yw deall dysgu ac addysgu yn well, wrth wneud hwn bydd y canlyniad yn gwella arfer.

Mae safon 18 o'r National Minimum Standards yn cyfleu bod y rheini a phlant yn elwa o wasanaethau ansawdd sydd yn cael ei fonitro'n yn ffordd effeithiol. Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau bod yr argymhellion a chyngor wrth Care and Social Services Inspectorate Wales ac unrhyw gyrff proffesiynol yn cael ei ystyried. Sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei fonitro'n yn barhaus mae hyn yn gyd fynd gyda rheoliad 16. A bod systemau monitro ansawdd a sicrhau ansawdd effeithiol ar waith. Mae'r farn y rheini a'r plant yn rhan fawr o'r broses hon, mae'n mesur llwyddiant y gwasanaeth o ran cyrraedd anghenion y plant trwy asesu (Welsh Government, 2016, p43). Yn ôl Reed a Canning (2012) mae cael y rheini sy'n gweithio gydag ymarferwyr gwir yn gwneud gwahaniaeth a gallu cynyddu cyflawniad.

Sicrwydd ansawdd

Yn ôl Sumsion et al (2018) mae sicrwydd ansawdd yw perthyn. Mae Welsh Government (2014) yn dweud bod safon yr amgylchedd corfforol yn effeithio ar ansawdd darpariaeth gofal plant, felly mae'n hanfodol bod yr amgylchedd dysgu o'r safon uchel i sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae cynlluniau gwella a sicrhau ansawdd wedi cael ei chynllunio i hyrwyddo ansawdd trwy annog ymarferwyr blynyddoedd cynnar i sicrhau bod nhw yn meddwl yn ofalus am yr hyn maent yn wneud a hefyd sut maent yn ei wneud. Y manteision o sicrwydd ansawdd yn lleoliadau yw adeiladu a datblygu timau, dangos a dathlu ymrwymiad i ansawdd, creu diwylliant o welliant parhaus darparu strwythur ar gyfer datblygu ac i ysbrydoli balchder yn y lleoliad blynyddoedd cynnar (Brighton and Hove City Council, dim dyddiad). Yn ôl Bland (dim dyddiad) i wella ansawdd yn y blynyddoedd cynnar mae angen cael dealltwriaeth glir o rôl wrth gefnogi teuluoedd a phlant i wneud dewisiadau sydd yn ddiogel ac iach mewn bywyd. Mae'r dewisiadau yn cynnwys lleihau ymddygiad eisteddog, hybu bwyta'n iach ac ymrwymiad i hybu datblygiad corfforol plant.

Sustained Shared Thinking and Emotional Wellbeing Scale (SSTEW)

Mae 'Sustained Shared Thinking' yn cael ei ddisgrifio yn y ffordd orau fel yr adegau lle mae'r ymarferwyr yn ymgolli'n llwyr gyda'r plentyn, mewn sgwrs neu mewn gweithgaredd sydd â diddordeb gwirioneddol yn y ddwy ran i ddarganfod mwy. Mae 'Sustained Shared Thinking' yn gallu digwydd unrhyw le, unrhyw bryd a dim ond diddordeb ac amser yr ymarferwr a'r plentyn sydd ei angen i hwn digwydd (Essex.gov.uk, dim dyddiad). Mae Siraj-Blatchford (2002) yn cytuno mae rhaid i ymarferwyr dangos diddordeb a rhoi eu sylw i gyd i'r plentyn, annog y plentyn i ymhelaethu a hefyd parchu penderfyniadau'r plentyn. Yn ôl Brodie (dim dyddiad) mae'r term 'Sustained Shared Thinking' yn dod o'r ymchwil REPEY, ac yn cael ei ddefnyddio i fesur ansawdd. Mae Siraj-Blatchford et al (2002) yn cyfleu bod yr ymchwil hwn wedi darganfod ansawdd rhyngweithio. Mae hyn yn cynnwys, Sustained Shared Thinking lle mae oedolion yn dangos perthnasoedd calonogol ac ymatebol gyda phlant. Wrth wneud hwn mae'n cael effaith arwyddocaol ar godi ansawdd cyffredinol y lleoliad.

Yn ôl Gardiner a Melhuish (2018) mae SSTEW yn ffocysu ar yr ansawdd rhyngweithio rhwng staff a phlant. Mae Siraj-Blatchford et al (2015) hefyd yn dweud

bod SSTEW yn raddfa sydd yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud ymchwil, archwilio a rheoleiddio, gwelliant a hunanwerthuso. Mae Howard et al (2020) yn cytuno bod SSTEW wedi cael ei ddatblygu i asesu ansawdd rhyngweithio mewn addysg a gofal plant cynnar. Ond mae'n hefyd yn cynnwys dimensiynau ansawdd proses yn seiliedig ar ddamcaniaethau datblygiadol ac arfer mewn lleoliadau effeithiol. Mae'r raddfa hyn yn offeryn sydd wedi cael ei ddatblygu i adeiladu'r bwlch rhwng arfer ac ymchwil a hefyd chefnogi uniondeb, dealltwriaeth a chynaliadwyedd yn y maes rhyngweithio o ansawdd uchel.

Mae'r raddfa hyn yn gysylltiedig yn agos i'r raddfa ECERS. Wrth ddefnyddio'r raddfa hon mae'n cyfleu'r neges bod dysgu cynnar plant yn cael ei sicrhau trwy eu datblygiad cymdeithasol, personol ac emosiynol. Gan ddefnyddio'r raddfa hon mae'n adeiladu ymddiriedaeth, annibyniaeth, hyder, a lles emosiynol a cymdeithasol (Watch me grow, dim dyddiad). Yn ôl Hoare (dim dyddiad) mae'r raddfa SSTEW gyda'r yr un strwythur a'r raddfa ECERS, ac yn ffocysu ar yr addysgeg o fewn y lleoliad, rôl yr oedolyn yn cefnogi datblygu a dysgu.

Early Childhood Environment Ratings Scales (ECERS)

Mae'r raddfa ECERS yn raddfa sydd yn cael ei ddefnyddio i fesur a gwella ansawdd darpariaeth blynyddoedd cynnar. Mae'n yn cynnig dull strwythuredig o wella ansawdd a hunan arfarnu. Mae'r raddfa yn cael ei ddefnyddio yn y deyrnas unedig gan lawer o awdurdodau lleol ac ymarferwyr i wella ansawdd darpariaeth y blynyddoedd cynnar Mae'r ECERS wedi cael ei arwain gan ganfyddiadau ymchwil EPPSE sy'n dangos cydberthynas gref rhwng darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd a chanlyniadau cadarnhaol hirdymor i blant (ecersuk, dim dyddiad). Mae ECERS yn bwysig, oherwydd mae wedi cael ei chynllunio i asesu ansawdd prosesau mewn grwpiau plentyndod cynnar. Mae ansawdd y broses yn cynnwys y rhyngweithio amrywiol sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth rhwng staff a phlant, staff, rhieni ac oedolion eraill, ymhlith y plant eu hunain (Great start to Quality, 2023).

Mae Writer (2023) yn cyfleu bod dau wahanol ECERS, ECERS-R a ECERS-3. Mae'r ddwy ohonyn nhw yn debyg iawn, maent yn cael ei sgorio yn yr un ffordd i'w gilydd. Maent yn asesu iaith a datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, corfforol, ac iechyd a diogelwch.

Yn ôl Gardiner a Melhuish (2018) Mae ECERS yn canolbwyntio ar agweddau addysgol o brofiadau. Mae’r raddfa ECERS yn offeryn asesu sydd wedi’i gynllunio i fesur ansawdd rhaglenni grŵp ar gyfer plant ifanc a babanod. Mae data yn cael ei gasglu trwy arsylwadau dosbarth a chyfweliad staff. Mae'r asesiad yn raddfa raddio 43-eitem wedi'i threfnu'n saith is-raddfa amgylcheddol (Standards Aligned System, dim dyddiad). Mae’n mesur gweithgareddau, rhieni a staff, rhyngweithiadau a threfn gofal personol. Y manteision o ddefnyddio'r raddfa hon yw mae’n hawdd deall a defnyddio a chynnig nodiadau ar gyfer eglurhad. Mae’n hefyd yn raddfa ddibynadwy, oherwydd mae’n sefydlog dros amseroedd hir, gallu cael ei ddefnyddio gan arsylwyr gwahanol ac yn cynnig hyfforddiant helaeth (Prezi, 2016). Yn ôl Sylva, K, Siraj, I a Taggart, B (2003) mae ECERS yn raddfa sydd yn gadarn ac yn llawn dychymyg sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil fel y raddfa SSTEW.

Mae’r meysydd sydd wedi nodi ar gyfer proffesiynol datblygiad ar gyfer ECERS yw mathemateg a rif, amrywiaeth, gwyddoniaeth a'r amgylchedd ac iaith a llythrennedd. Y meysydd sydd wedi nodi ar gyfer proffesiynol datblygiad ar gyfer SSTEW yw asesu dysgu ac iaith, lles cymdeithasol ac emosiynol ac adeiladu ymddiriedaeth, hyder ac annibyniaeth, cefnogi ac ymestyn iaith a chyfathrebu a chefnogi dysgu a meddwl beirniadol (Hoare, dim dyddiad).

Rhestr Cyfeirnodi

Bland, F. (dim dyddiad) *Quality practice in early years.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/quality-practice-in-early-years#:~:text=A%20high%2Dquality%20environment%20incorporates,opportunities%20for%20children%20to%20'have. (Darllenwyd: 21 o Mawrth 2023).

Brighton and Hove City Council. (dim dyddiad) *Improving quality in early years settings.* Ar gael o: https://www.brighton-hove.gov.uk/families-children-and-learning/early-education-and-childcare-professionals/improving-quality-early#:~:text=Quality%20assurance%20and%20improvement%20schemes%20are%20designed%20to%20promote%20quality,in%20the%20early%20years%20setting. (Darllewyd: 22 o Mawrth 2023).

Brodie, K. (dim dyddiad) *Sustained shared thinking in EYFS – What it is and activities to try*. Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/cpd/view/sustained-shared-thinking-part-1. (Darllenwyd: 30 o Mawrth 2023).

Cottle, M. and Alexander, E. (2012) 'Quality in early years settings: Government, research and practitioners' perspectives', British educational research journal, 38(4), pp. 635–654. Ar gael o: https://doi.org/10.1080/01411926.2011.571661.

Ecersuk. (dim dyddiad) *THE ENVIRONMENT RATING SCALES.* Ar gael o: https://www.ecersuk.org/2. (Darllenwyd: 7 o Ebrill 2023).

Essex.gov.uk. (dim dyddiad) Understanding Sustained Shared Thinking. Ar gael o: https://eycp.essex.gov.uk/media/1181/positiverelationships-understanding_sustained_shared_thinking.pdf. (Darllenwyd: 4 o Ebrill 2023).

Foundation Years. (dim dyddiad) *Quality improvement.* Ar gael o: https://foundationyears.org.uk/pedagogy-early-learning/quality-improvement/#:~:text=Quality%20provision%20in%20early%20education,to%20realise%20the%20best%20outcomes. (Darllenwyd: 21 o Mawrth 2023).

Gardiner, J a Melhuish, E. (2018) *Study of Early Education and Development (SEED): Study of Quality of Early Years Provision in England (Revised).* Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/723736/Study_of_quality_of_early_years_provision_in_England.pdf. (Darllenwyd: 22 o Mawrth 2023).

Great start to Quality. (2023) *ERS-3.* Ar gael o: https://greatstarttoquality.org/ers-3/#:~:text=The%20Environment%20Rating%20Scales%20(ERS,adults%2C%20among%20the%20children%20themselves. (Darllenwyd: 6 o Ebrill 2023).

Hallet, E. (2013) '"We all share a common vision and passion": Early years professionals reflect upon their leadership of practice role', Journal of early childhood

research : ECR, 11(3), pp. 312–325. Ar gaael o: https://doi.org/10.1177/1476718X13490889.

Hoare, P. (dim dyddiad) *Sustained Shared Thinking and Emotional Well-being scales*. Ar gael o: https://www.towerhamlets.gov.uk/Documents/Children-and-families-services/Early-Years/Sustained_Shared_Thinking_and_Emotional_Well_being_scales_Presentation.pdf. (Darllenwyd: 1 o Ebrill 2023).

Howard, S.J. *et al.* (2020) 'Measuring interactional quality in pre-school settings: Introduction and validation of the Sustained Shared Thinking and Emotional Wellbeing (SSTEW) scale', *Early Child Development and Care*, 190(7), pp. 1017-1030 doi.org/10.1080/03004430.2018.1511549

Prezi. (2016) EARLY CHILDHOOD ENVIRONMENT RATING SCALE. Ar gael o: https://prezi.com/733p7lezusbz/early-childhood-environment-rating-scale/. (Darllenwyd: 4 o Ebrill 2023).

Reed, M. and Canning, N. (2012) Implementing quality improvement and change in the early years. Los Angeles, [Calif.] ;: SAGE.

Rudoe, N. (2020) '"We believe in every child as an individual": Nursery school head teachers' understandings of "quality" in early years education', *British educational research journal*, 46(5), pp. 1012–1025. Ar gael o: https://doi.org/10.1002/berj.3610.

Siraj-Blatchford, I. (2002) *Positive thinking.* Ar gael o: https://www.nurseryworld.co.uk/news/article/positive-thinking. (Darllenwyd: 3 o Ebrill 2023).

Siraj-Blatchford, I. *et al.* (2002) *Researching Effective Pedagogy in the Early Years.* Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/4650/1/RR356.pdf. (Darllenwyd: 2 o Ebrill 2023).

Siraj, I., Kingston, D. and Melhuish, E.C. (2015) Assessing quality in early childhood education and care : Sustained Shared Thinking and Emotional Well-being (SSTEW) Scale for 2-5 Year-olds provision. London: IOE Press.

Standards Aligned System. (dim dyddiad) EARLY CHILDHOOD ENVIRONMENT RATING SCALE (ECERS-R). Ar gael o:

https://static.pdesas.org/content/documents/Early%20Childhood%20Environment%20Rating%20Scale%20(ECERS-R).pdf. (Darllenwyd: 6 o Ebrill 2023).

Sumsion, J. *et al.* (2018) '"Belonging" in Australian early childhood education and care curriculum and quality assurance: Opportunities and risks', Contemporary issues in early childhood, 19(4), pp. 340–355. Ar gael o: https://doi.org/10.1177/1463949118796239.

Sylva, K., Siraj, I. a Taggart, B. (2003) Assessing quality in the early years : early childhood environment rating scale : extension (ECERS-E), four curricular subscales. Stoke on Trent: Trentham.

TeachKloud. (2019) *Reflective Practice in the Early Years.* Ar gael o: https://www.teachkloud.com/early-years-education/reflective-practice-in-the-early-years/#:~:text=Reflective%20practice%20can%20be%20described,as%20a%20result%2C%20improve%20practice. (Darllenwyd: 25 o Mawrth 2023).

Watch me grow. (dim dyddiad). *Sustained Shared Thinking and Emotional well-Being (SSTEW) Scales for 2 – 5 year olds provision*. Ar gael o: https://watchmegrow.uk/further_resources/sustained-shared-thinking-emotional-well-sstew-scales-2-5-year-olds-provision/#:~:text=It%20brings%20together%20the%20crucial,Social%20and%20emotional%20well%2Dbeing. (Darllenwyd: 1 o Ebrill 2023).

Writer, S. (2023) *What You Need to Know About ECERS-3.* Ar gael o: https://blog.kaplanco.com/ii/what-you-need-to-know-about-ecers3#:~:text=Interactions%20and%20the%20teacher's%20role,%2C%20peer%20interaction%2C%20and%20discipline. (Darllenwyd: 5 o Ebrill 2023).

Welsh Government. (2014) *Flying Start- Annex Quality Childcare Guidance.* Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-childcare-guidance.pdf. (Darllenwyd: 24 o Mawrth 2023).

Welsh Government. (2016) National Minimum Standards for Regulated Childcare for children up to the age of 12 years. Ar gael o:

https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcareen.pdf. (Darllenwyd: 22 o Mawrth 2023).